CANLLAWIAU

# Datgymhwyso dros dro Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion 2009

Cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch newid amseroedd sesiynau ysgolion ar gyfer tymor yr hydref 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf:
2 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
12 Awst 2020

Cynnwys

Disgrifiad

Camau gweithredu ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol

## Disgrifiad

Mae Deddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â llesteirio, atal a rheoli lledaeniad y coronafeirws mewn ysgolion, sefydliadau addysgol eraill a lleoliadau gofal plant yng Nghymru. Mae'n cynnwys pwerau i wneud hysbysiadau yn dileu neu lacio darpariaethau statudol dros dro.

Bydd ysgolion yn ailagor ac yn dechrau croesawu dysgwyr yn ôl o 1 Medi. Bydd nifer o ysgolion yn mabwysiadu dull gweithredu graddol yn ystod pythefnos cyntaf y tymor, ond bydd pob dysgwr nôl yn yr ysgol erbyn 14 Medi. Gallai ysgolion ystyried bod dysgwyr yn cyrraedd, gadael a chael eu hegwyl ar adegau gwahanol, ac felly efallai y bydd angen i ysgolion wneud newidiadau dros dro i amserau dechrau a gorffen y diwrnod ysgol. Mae hyn yn ategu'r cyngor yn y canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau addysgol o dymor yr hydref y dylai ysgolion ystyried gwasgaru amseroedd dechrau a gorffen i gadw grwpiau ar wahân.

Mae Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 yn amlinellu'r weithdrefn y mae'n rhaid i rai cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol eu dilyn er mwyn gwneud newidiadau o'r fath. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ar ddatganiad, cynnal cyfarfod gyda rhieni, ac ystyried unrhyw benderfyniad ysgrifenedig. Maent yn darparu hefyd mai dim ond ar ddechrau tymor neu ddechrau blwyddyn ysgol (yn dibynnu ar y cynnig) y gellir gwneud newidiadau o'r fath.

Mae'r hysbysiad yn datgymhwyso dros dro reoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 er mwyn gallu gwneud newidiadau i amserau sesiynau ysgolion heb fod angen ymgynghori neu roi hysbysiad. Dim ond i newidiadau i amserau sesiynau a wneir oherwydd y coronafeirws y mae'r datgymhwysiad dros dro hwn yn berthnasol, ac ni fydd unrhyw newidiadau a wneir tra bydd yr hysbysiad yn weithredol yn barhaol.

Mae'r hysbysiad hwn mewn grym am 30 diwrnod o 1 Medi a chaiff ei adolygu bob mis.

## Camau gweithredu ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol

Dylai cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn abl i groesawu pob dysgwr erbyn 14 Medi, a dylent gynllunio amseroedd eu sesiynau ysgolion ar sail y cyngor diweddaraf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Caniateir newid amseroedd dechrau a diwedd y diwrnod ysgol, yn ogystal â'r egwyl ginio, heb fod angen ymgynghori yn gyntaf na rhoi hysbysiad, a hynny er mwyn cynyddu'r gweithgarwch yn ystod pandemig y coronafeirws yn unig.

Gall newidiadau i amseroedd dechrau a gorffen fod yn drafferthus i rieni sy'n gweithio. Yn ogystal, gallai amseroedd egwyl byrrach effeithio'n andwyol ar ddysgwyr, yn enwedig os yw'r amser a ganiateir i fwyta wedi'i gyfyngu. Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith ar ddysgwyr a rhieni wrth wneud newidiadau o'r fath. Dylid hefyd ystyried yr effaith y gallai unrhyw newidiadau ei chael ar drefniadau ar gyfer cludiant i'r ysgol.

Yn achos newidiadau hirdymor a wneir i amserau sesiynau ysgolion nad ydynt yn ymwneud â phandemig y coronafeirws, rhaid dilyn y gweithdrefnau o ran ymgynghori a chyfnodau hysbysiadau a amlinellir yn Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009.

Cyhoeddwyd gyntaf
2 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf
12 Awst 2020